# MODIWLAU CYMRAEG A DWYIEITHOG

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



## BLWYDDYN 1 2022/23

# WELSH AT BANGOR

## This booklet

This booklet lists the Welsh-medium / bilingual modules that are available to first year students in 2022/23. Students can also learn Welsh as part of their degree course or follow Welsh courses outside their formal studies.

## Basic Welsh 1 Module

- **Semester 1, CCB-1891, 10 credits**
  **Thursday, 10.00 – 12.00**
- **Semester 2, CCB-1892, 10 credits**
  **Thursday, 10.00 – 12.00**

This module is aimed at complete beginners with no previous knowledge of Welsh and can be taken in either Semester 1 or Semester 2.

The method used in class will be a communicative method, and importance is placed on learning basic vocabulary and constructions for everyday use.

The classes will be held on-line on Microsoft Teams.

Please note, this module is not suitable for students who have gained a pass in Welsh GCSE second language.

If you are not able to take this module nor able to follow modules through the medium of Welsh but would still like to learn or improve your Welsh during your time at Bangor, there are many other opportunities for you to do so, either by signing up for the 'Online Self-Study course' (see panel) or attending classes run by Learn Welsh north west. For more information, please contact Bethan Glyn b.l.glyn@bangor.ac.uk / 01248 388083 or search for a course at www.learnwelsh.Cymru/NW

All our classes are free of charge for people age 18 – 25 and we will have classes on a Monday and Thursday evening aimed specifically at this age group at both entry and foundation levels.



## Online Self-Study Welsh Course

**Level: Complete beginners**

Learn Welsh at your own pace, anytime, anywhere, at a time that is convenient to you. Access the course via your phone, tablet, or computer.

For more information, email cwrsarlein@bangor.ac.uk or scan this QR Code to register:

## Ffrind Cymraeg

Why not join UMCB's 'Ffrind Cymraeg' (Welsh Friend) Volunteering Project where a fluent Welsh speaker is paired with a Welsh learner to help them practice using the language and increase their confidence in doing so? Contact: umcb@undebbangor.com




## Y llyfryn hwn

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys gwybodaeth am fodiwlau Cymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn 2022/23. Mae'n bosib y bydd rhai newidiadau ac ychwanegiadau i'r ddarpariaeth a nodir yma. Dylech gadarnhau pa fodiwlau sydd ar gael wrth i chi gofrestru. Fe fydd cynrychiolwyr yr ysgolion academaidd yn hapus iawn i ymateb i unrhyw gwestiwn ynglŷn â'r modiwlau sy'n cael eu cynnig ganddynt.

## Bwrsariaethau Astudio trwy'r Gymraeg

Fel rhan o'i hymdrech i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg, mae Prifysgol Bangor yn cynnig bwrsariaethau i gynorthwyo'r rheini sy'n dewis astudio rhan o'u cwrs, neu'r cwrs cyfan, trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae bwrsariaethau o £250 y flwyddyn ar gael i'r rhai sy'n dewis astudio 40 credyd y flwyddyn neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg www.bangor.ac.uk/bwrsariaethau

## Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Eleni, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig ysgoloriaeth cymhelliant gwerth £500 y flwyddyn i'r rhai sy'n astudio 40 credyd neu fwy yn Gymraeg. Holwch yn eich ysgol am fwy o wybodaeth, neu cysylltwch ag Emily Boyman , Swyddog Cangen Bangor o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol:
emily.boyman@bangor.ac.uk




# WYTHNOS GROESO 2022

Mae gwefan **Croeso 2022** yn cynnwys llawer o wybodaeth am astudio drwy'r Gymraeg a chefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg ym Mangor.

Edrychwch ar y tudalennau i ddysgu mwy am y cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r gefnogaeth sydd ar gael.

https://www.bangor.ac.uk/welcome/index.php.cy





# Ffair Groeso Gymraeg

**Dydd Llun, 19 Medi 2022**

**Neuadd Powis**

Galwch heibio rhwng
10yb – 12yh

Dyma gyfle i chi gyfarfod y darlithwyr sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddarganfod mwy am fodiwlau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog sydd ar gael i chi. Bydd stondinau gan wahanol gymdeithasau yn y ffair a bydd yn gyfle da i gwrdd â myfyrwyr newydd eraill sy'n siarad Cymraeg.

Dewch yn llu!

# Welsh Welcome Fair

**Monday, 19 September 2022**

**Neuadd Powis**

Drop by between
10am – 12pm

There will be a dedicated stall for discussing the opportunities to learn Welsh here at Bangor University. Come along if you would like to learn more!

# Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae Bangor yn arwain mewn datblygiadau addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac yn chwarae rhan amlwg yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

# Sut all y Coleg Cymraeg Cenedlaethol dy helpu di?

- mae'n cynllunio cyfleoedd astudio drwy'r Gymraeg mewn partneriaeth â phob prifysgol yng Nghymru
- mae'n cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- mae'n creu adnoddau defnyddiol i fyfyrwyr
- mae'n cynnig cyfle i dderbyn y Dystysgrif Sgiliau Iaith

# Dod yn aelod o'r Coleg

Wrth ddod yn aelod, byddi di'n derbyn gwybodaeth a newyddion am weithgareddau a datblygiadau'r Coleg, a manylion am gyfleoedd sy'n ymwneud ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ymaelodi'n hawdd, drwy'r wefan – ac am ddim!

# Dewch i weld y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mhrifysgol Bangor

Mae Cangen Bangor o'r CCC wedi'i lleoli yng Nghanolfan Bedwyr, yn Neuadd Dyfrdwy ar Ffordd y Coleg. Mae croeso cynnes i fyfyrwyr alw heibio i gael sgwrs gydag Emily Boyman, y Swyddog Cangen ym Mangor, am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor, neu i holi am wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Am fwy o wybodaeth:
**www.bangor.ac.uk/ccc**

**Cysylltwch â ni**
**Ebost** emily.boyman@bangor.ac.uk
**Ffôn** 01248 383274
@cangenbangor / @bangorbranch
@colegcymraeg
@cangenbangor / @bangorbranch
Cangen Bangor




# Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB)

Mae UMCB yn rhan o Undeb Bangor, a dyma'r sefydliad sy'n gyfrifol am gefnogi a chynrychioli myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Bangor ym mhob agwedd o'u bywydau sy'n ymwneud â'r iaith. Mae pob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg yn aelod awtomatig o UMCB, mae croeso hefyd i ddysgwyr a myfyrwyr sydd ag unrhyw ddiddordeb yn y Gymraeg. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, eisiau mwy o wybodaeth am unrhyw beth, eisiau tawelu unrhyw bryderon, neu os ydych chi ffansio paned a sgwrs, mae croeso i chi gysylltu gyda Celt John, Llywydd UMCB eleni, neu gallwch ddod i'w weld yn swyddfa'r Undeb ar lawr 4 Pontio. Mae gan UMCB amryw o gymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli sy'n cynnig profiadau i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cymdeithasau i gyd ar gael am ddim, ac mae croeso i unrhyw un ymuno yn yr hwyl. Mae digwyddiadau'n cael eu cynnal yn wythnosol, gyda digonedd o gyfleoedd i fyfyrwyr Cymraeg y Brifysgol. Dyma flas ar y cyfleoedd a'r cymdeithasau mae UMCB yn eu cynnig:

## Y Cymric

Y Cymric ydi corff cymdeithasol UMCB. Mae'n cynnwys pedwar myfyriwr sydd yn eu trydedd flwyddyn, a nhw sy'n gyfrifol am drefnu'r digwyddiadau cymdeithasol mae UMCB yn eu cynnig. Maen nhw'n trefnu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a nosweithiau hwyliog, o nosweithiau Clwb Cymru a Meic Agored, i Eisteddfodau Dafarn a chrolau lu. Nhw fydd yn gyfrifol, am drefnu'r daith rygbi yn ystod Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, y Ddawns Ryng-golegol yn Aberystwyth ym mis Tachwedd a'r Eisteddfod Ryng-golegol. Fe fyddan nhw hefyd wedi paratoi Wythnos y Glas hynod o gyffrous ym mis Medi a digwyddiadau'r Wythnos Olaf ym Mehefin.

## Chwaraeon y Cymric

Mae timau Chwaraeon y Cymric wedi mynd o nerth i nerth yn ystod y blynyddoedd diweddar. Maent yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ymarfer a chwarae fel rhan o dimau Cymraeg eu hiaith. Mae'r timau yn cystadlu yn erbyn timau Undebau Cymraeg prifysgolion eraill Cymru, a hefyd yn herio timau lleol. Gall unrhyw un ymuno yn yr hwyl - boed yn ddechreuwr, neu yn chwaraewr mwy profiadol, mae croeso i bawb. Mae gennym ni dimau pêl-droed a rygbi i fechgyn a merched, yn ogystal â thimau hoci a phêl-rwyd i ferched. Rydym hefyd wedi dechrau cael blas ar wahanol gampau eraill fel rhedeg a darts! Mae'r timau'n ymarfer yn wythnosol ac yn canolbwyntio ar uchafbwyntiau'r flwyddyn.



## Aelwyd JMJ

Cymdeithas gerddorol yw Aelwyd JMJ ac mae ganddynt nifer o gorau yn perfformio ystod eang o gerddoriaeth. Maent yn cystadlu mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ac yn Eisteddfod 2019 cawsant lwyddiant ysgubol gan ennill y wobr 1af ym mhob cystadleuaeth i Aelwydydd! Maent hefyd yn cynnal cyngherddau trwy gydol y flwyddyn academaidd, gan godi arian i elusennau.

## Cymdeithas John Gwilym Jones

Dyma gymdeithas llenyddiaeth a drama Gymraeg Prifysgol Bangor. Mae'r gymdeithas yn cynnal digwyddiadau megis cynhyrchiad drama flynyddol yn Pontio, gweithdai barddoniaeth a stomp mewn tafarndai. Mae croeso i unrhyw un ymuno â digwyddiadau neu ymarferion.

## Radio UMCB

Mae Radio UMCB yn rhoi'r cyfle i Gymry Cymraeg y brifysgol i gyflwyno rhaglenni radio ar sianel y Brifysgol, Storm FM. Mae croeso i unrhyw un gyflwyno rhaglen eu hunain, gan roi'r cyfle i griw UMCB chwarae cerddoriaeth, hyrwyddo digwyddiadau a gigs neu roi'r byd yn ei le ar yr awyr.

## Y Llef

Y Llef ydy platfform digidol UMCB sy'n cynnig cyfle i'n myfyrwyr ysgrifennu neu ymdrin yn greadigol â newyddion, chwaraeon, cerddoriaeth, pynciau llosg neu unrhyw beth sydd yn ennyn eu diddordeb. Mae modd i unrhyw un fod yn olygydd i'r Llef, gyda'r cynnwys yn cael ei rannu ar-lein. Mae'n gyfle gwych i'n myfyrwyr ehangu eu gorwelion ym myd y cyfryngau Cymraeg.

## Prosiect Ffrind Cymraeg

Mae'r Project Ffrind Cymraeg yn un gwirfoddol, sydd yn gyfle i'n myfyrwyr helpu dysgwyr Cymraeg trwy gael cyfarfod mewn awyrgylch gymdeithasol a chartrefol. Bydd ein myfyrwyr yn helpu'r dysgwyr, yn ogystal â'u cyflwyno nhw i gymdeithas UMCB. Byddwn yn cydweithio â'r Undeb cyfan i sicrhau fod nifer o fyfyrwyr di-Gymraeg yn ymuno ac yn dysgu elfennau syml o'r iaith.

# Pwyllgor Gwaith UMCB

Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae'r myfyrwyr yn ethol Pwyllgor UMCB newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Y myfyrwyr hyn fydd yn sefyll ar y pwyllgor er mwyn cynrychioli eu cyfoedion. Cynhelir etholiad arall ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd er mwyn penodi cynrychiolydd y flwyddyn 1af, cynrychiolydd ôl-radd, a chynrychiolydd myfyrwyr sy'n byw gartref. Mae'r myfyrwyr hyn yma i'ch cynorthwyo, a'ch helpu! Cysylltwch efo'r cynrychiolydd priodol gydag unrhyw fater sy'n codi.

Llywydd UMCB: Celt John
Llywydd JMJ: Beca Evans
Cynrychiolydd yr 2il Flwyddyn: Siriol Hughes
Cynrychiolydd y 3edd Flwyddyn: Ela Pari
Cynrychiolydd Galwedigaethol: Catrin Gerallt Jones
Cynrychiolydd LHDTC+: Tesni Peers
Swyddog RAG: Lowri Powell
Aelodau'r Cymric: Callum Evans, Samantha Goad, Gronw Ifan, Catrin Lois Jones
Cynrychiolydd Chwaraeon Merched: Elain Elis
Cynrychiolydd Chwaraeon Bechgyn: Rhydian Williams

## Cysylltwch â ni -

**Ebost** celt.john@undebbangor.com
Facebook – UMCB
Twitter - @UMCB1
Instagram - @UMCB1976
Snapchat - UMCB1



Pwyllgor Gwaith UMCB



Llywydd UMCB – Celt John

# MANTEISION
## Astudio Trwy'r Gymraeg




Ym Mangor, mae 9 o bob 10 myfyriwr sy'n siarad Cymraeg yn astudio rhywfaint o'u cwrs drwy'r Gymraeg. Mae data yn dangos bod myfyrwyr sydd wedi astudio drwy'r Gymraeg yn fwy tebygol o fod mewn swyddi o ansawdd uchel ar ôl graddio na myfyrwyr sydd ddim yn astudio drwy'r Gymraeg.

Cofiwch fod:

- angen pobl ddwyieithog mewn pob math o swyddi
- gofyn mawr am bobl ifanc broffesiynol sy'n gallu gweithredu'n ddwyieithog
- cyflogau swyddi dwyieithog yn uwch ar gyfartaledd
- astudio trwy'r Gymraeg yn y Brifysgol yn rhoi sylfaen ardderchog i'ch gyrfa

## Cyflogadwyedd

Manteisiwch ar y cyfleoedd ym Mhrifysgol Bangor i ddatblygu eich sgiliau cyflogadwyedd.

## Gwirfoddoli

Mae llawer o gyfleoedd ar gael ym Mangor i wirfoddoli, a galw mawr am wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg. Manteisiwch ar y cyfleoedd hyn er mwyn cael pwyntiau tuag at Wobr Cyflogadwyedd Bangor!

## Hawliau myfyrwyr i wasanaethau Cymraeg

Mae Gwasanaethau Myfyrwyr yn cynnig cymorth i fyfyrwyr ar ystod eang o faterion, o roi cyngor ariannol i gwnsela. Mae'r holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwefan: bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr

Ebost: gwasanaethaumyfyrwyr@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 382024

# CEFNOGAETH
## i astudio trwy'r Gymraeg

### Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg

Yn ystod eich cyfnod ym Mangor, byddwch chi'n cael cyfle i ennill Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Dystysgrif yn cael ei derbyn gan lawer o gyflogwyr fel prawf o'ch gallu i weithio'n gywir ac effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd tiwtor yn eich helpu chi i baratoi ar gyfer arholiad llafar ac ysgrifenedig y Dystysgrif a datblygu eich sgiliau iaith ar yr un pryd, a hynny drwy gyfuniad o ddarpariaeth ar-lein a sesiynau wyneb yn wyneb.

Os ydych chi am ymgeisio am y Dystysgrif eleni, bydd angen i chi gofrestru erbyn 1 Tachwedd 2022.

Cysylltwch â Siân Esmor:
s.esmor@bangor.ac.uk

*"Y peth gorau am astudio ym Mangor yw medru astudio fy nghwrs gradd trwy gyfrwng fy mamiaith a datblygu perthnasoedd da gyda fy nghyd-fyfyrwyr ar y cwrs a'r darlithwyr."*

LOWRI WYN POWELL, sy'n astudio Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig

### Cefnogaeth Sgiliau Iaith

Mae Canolfan Bedwyr yma i'ch cefnogi chi i ddatblygu eich sgiliau iaith Gymraeg yn ystod eich cyfnod yn y Brifysgol. Ar gyfer myfyrwyr y flwyddyn gyntaf, rydyn ni'n cynnig y modiwl:

---

CCB-1101 **SGILIAU DEFNYDDIO'R GYMRAEG 1**
**Semester 1, 20 Credyd**
Nod y modiwl hwn yw codi hyder llafar ac ysgrifenedig myfyrwyr yn y Gymraeg. Bydd yn eich helpu chi i wneud aseiniadau yn y Gymraeg yn eich prif bynciau ac yn eich paratoi at fyd gwaith dwyieithog. Mae'r modiwl yn addas hefyd ar gyfer rhai sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith.

Cysylltwch â Siân Esmor:
s.esmor@bangor.ac.uk

### Cefnogaeth Sgiliau Astudio

Mae'r tîm Cefnogi Dysgu ac Addysgu yn darparu ystod o wasanaethau rhad ac am ddim wedi'u cynllunio i hwyluso symud i Brifysgol ac i'ch helpu i elwa o'ch astudiaethau. Rydym yn gweithio o fewn adrannau academaidd ac yn cynnig rhaglen o weithdai. Ceir rhagor o wybodaeth amdanynt ar ein gwefan. I wneud apwyntiad neu am ragor o wybodaeth, ewch i www.bangor.ac.uk/studyskills/index.php.cy neu cysylltwch â ni drwy helpdesk@bangor.ac.uk. Rydym wedi ein lleoli yn y Brif Lyfrgell. Mae pob gwasanaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

# MODIWLAU CYFRWNG CYMRAEG

Mae Bangor yn cynnig mwy o gyrsiau a chyfleoedd astudio drwy gyfrwng y Gymraeg nag unrhyw brifysgol arall yng Nghymru ac mae mwy o fyfyrwyr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yma nag yn unrhyw un o'r prifysgolion eraill yng Nghymru.

Edrychwch ar dudalennau 13-41 i weld y modiwlau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig mewn gwahanol ysgolion ar gyfer blwyddyn gyntaf eich cwrs.

# YSGOL IAITH, DIWYLLIANT A'R CELFYDDYDAU

## Ysgrifennu Creadigol a Phroffesiynol, Llenyddiaeth Saesneg, Ffilm, y Cyfryngau a Newyddiaduraeth

**Cyswllt: Geraint Ellis**
g.w.ellis@bangor.ac.uk

### UXC-1001 **CYFLWYNIAD I NEWYDDIADURAETH YMARFEROL**

**20 Credyd Semester 1**

Dyma fodiwl sy'n cyflwyno'r myfyrwyr i fyd newyddiaduraeth. Byddant yn dysgu'r gwahaniaeth rhwng ysgrifennu creadigol a ffeithiol, y sgiliau gwahanol sydd eu hangen, a sut i gynllunio straeon ffeithiol. Fe'u dysgir sut i baratoi ar gyfer cyfweliadau, sut i gynhyrchu eu straeon eu hunain a sut i olygu eu gwaith. Elfen bwysig o hyn fydd dysgu sut i ymchwilio straeon. Bydd nifer o dasgau ganddynt i'w cwblhau a fydd yn eu hannog i fynd allan i gyfweld pobl `go iawn' a sut i ddewis a dethol y dyfyniadau gorau. Erbyn diwedd y modiwl byddant hefyd wedi cysylltu gyda golygyddion amrywiol gyhoeddiadau i geisio cyhoeddi eu gwaith.

### UXC-1062 **IAITH FFILM**

**20 Credyd Semester 1, dwyieithog**

Mae'r modiwl hwn yn fodd o alluogi myfyrwyr i ddysgu hanfodion dadansoddi'r ddelwedd symudol. Bydd myfyrwyr ar y modiwl yn dysgu terminoleg dechnegol a fydd yn eu cynorthwyo i ddadansoddi'r ffordd y mae ffilm yn cyfathrebu ystyr. Bydd darlithoedd unigol yn trafod pynciau megis Mise-en-Scène, Montage, Gwaith Camera, Sain, Goleuo ac Arddull Weledol. Bydd dangosiadau o ffilmiau perthnasol yn cael eu cynnal yn wythnosol, er mwyn cyflwyno enghreifftiau o'r pynciau dan sylw.

### UXB-1018 **YMARFER CREADIGOL**

**20 Credyd Semester 1**

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i amryw o elfennau creadigol a fydd yn rhan o'u cynlluniau gradd, gyda phwyslais arbennig ar sgiliau generaidd y gellir ei defnyddio mewn gwahanol feysydd cynhyrchu o fewn y cyfryngau. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu ac ymchwilio syniadau, technegau a dulliau cynhyrchu sylfaenol, ac adfyfyrio a gwerthuso beirniadol. Bydd yn cyflwyno sylfaen buddiol ar gyfer elfennau ymarferol y ddarpariaeth Cyfryngau a Newyddiaduraeth a gyflwynir yn yr ysgol yn ddiweddarach, ac yn cynorthwyo'r myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau beirniadol.

### UXC-1038 **CYFLWYNIAD I YMARFER Y CYFRYNGAU**

**20 Credyd Semester 2**

Dyma fodiwl sydd yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r sgiliau a'r technegau sylfaenol a fydd yn eu galluogi i greu cynyrchiadau fideo a sain. Cyflwynir y myfyrwyr i'r offer a'r dulliau cynhyrchu perthnasol, a chyflawnir cyfres o dasgau perthnasol. Rhoddir sylw i'r prosesau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, gan drafod enghreifftiau defnyddiol. Bydd y myfyrwyr hefyd yn adfyfyrio ar y gwaith drwy ddadansoddi'r hyn a gyflawnir.

### UXB-1066 **DIWYLLIANT GWELEDOL**

**20 Credyd Semester 2, dwyieithog**

Bydd y modiwl hwn yn edrych ar nifer o gyfryngau gweledol gan archwilio testunau unigol yn ogystal ag edrych ar y sefydliadau sy'n eu cynhyrchu, a'r cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol o amgylch y sefydliadau hynny. Trafodir dadleuon ynglŷn â natur gwahanol gyfryngau, gan archwilio'r berthynas rhwng y cyfrwng a'r testun. Mae hyn yn cynnwys maes newyddiaduraeth, ond gan ganolbwyntio ar ffurfiau gweledol o newyddiadura, gan gynnwys ffotonewyddiaduraeth a ffilmiau dogfen. Un o amcanion y modiwl hwn yw arfogi myfyrwyr â gwybodaeth a dealltwriaeth o ddadleuon allweddol am orffennol, presennol a dyfodol y cyfryngau gweledol.

# YSGOL IAITH, DIWYLLIANT A'R CELFYDDYDAU

## Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg

**Cyswllt: Dr Peredur Webb-Davies**
p.davies@bangor.ac.uk

### QCB1113 **IAITH A CHYMDEITHAS**

**20 Credyd Semester 1**

Mae'r modiwl dwyieithog hwn yn cyflwyno myfyrwyr i sosioieithyddiaeth, sef yr astudiaeth o'r berthynas rhwng iaith a chymdeithas. Bydd y ffocws ar yr iaith Saesneg a'r iaith Gymraeg. Byddwn yn ystyried pa ffactorau cymdeithasol - fel ffurfioldeb, dosbarth cymdeithasol, oedran a rhyw siaradwyr - sydd yn dylanwadu ar ffurf ramadegol iaith, a hefyd yn trafod amrywiaeth tafodieithol, sef sut mae pobl o wahanol ardaloedd yn siarad yn wahanol. Bydd myfyrwyr Cymraeg yn cael darlithoedd Saesneg gyda myfyriwr modiwl QXL1113 Language and Society a hefyd yn cael seminarau Cymraeg fydd yn canolbwyntio ar enghreifftiau o'r Gymraeg cyfoes. Nid oes angen unrhyw gefndir ieithyddol penodol i fyfyrwyr sydd eisiau dilyn y modiwl hwn.

### QCL1018 DISGRIFIO IAITH

**20 Credyd Semester 2**

Mae'r modiwl cyfrwng Cymraeg hwn yn cyflwyno myfyrwyr i hanfodion ieithyddiaeth (linguistics) . Gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel man cychwyn, yn ystod y modiwl bydd myfyrwyr yn edrych ar sut i ddisgrifio gramadeg ieithoedd sydd o ddiddordeb i fyfyrwyr y modiwl, fel Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg a/neu Sbaeneg. Byddwn yn trafod nodweddion gramadegol fel trefn geiriau, strwythur mewnol geiriau, sain iaith, hanes iaith, cymysgu ieithoedd (cyfnewid côd), ayb. Erbyn diwedd y modiwl bydd myfyrwyr yn gallu esbonio'r blociau adeiladol sy'n cael eu cyfuno er mwyn creu iaith a'u cymharu ar draws ieithoedd. Gan nad oes angen i fyfyrwyr gael gwybodaeth ieithyddol flaenorol, mae'r modiwl yn arbennig o addas ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ieithyddiaeth, llên/iaith Cymraeg, llên/iaith Saesneg, iaith fodern fel Sbaeneg neu Ffrangeg, ayb.

# YSGOL IAITH, DIWYLLIANT A'R CELFYDDYDAU

## Ieithoedd Modern

**Cyswllt: Dr Jonathan Ervine**
j.ervine@bangor.ac.uk

### LCF-1001 **FFRANGEG UWCH 1**

**20 Credyd Semester 1**

Modiwl sy'n galluogi i fyfyrwyr sydd wedi gwneud Lefel A Ffrangeg ddatblygu sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar drwy ehangu ar y gallu ieithyddol a gafwyd yn ystod Lefel A. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau cyfieithu ac ysgrifennu, yn ogystal â sgiliau llafar/gwrando. Bydd myfyrwyr hefyd yn adolygu a datblygu meysydd allweddol o ramadeg. Daw'r testunau a'r deunyddiau a ddefnyddir yn y modiwl hwn o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y cyfryngau a darnau llenyddol er mwyn dod i arfer â gwahanol gyweiriau. Bydd myfyrwyr yn cael cipolwg ar themâu Ffrengig penodol a materion sy'n ymwneud â bywyd a chymdeithas gyfoes yn y gwledydd Ffrangeg eu hiaith. Cefnogir dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth trwy Bortffolio Hunanastudiaeth gyd-gwricwlaidd.

### LCF-1002 **FFRANGEG UWCH 2**

**20 Credyd Semester 2**

Mae'r modiwl hwn yn barhad o LCF-1001, a'i nod yw gwella sgiliau llafar, gwrando ac ysgrifenedig Ffrangeg myfyrwyr lefel uwch.

### LCF1003 **FFRANGEG I DDECHREUWYR 1**

**20 Credyd Semester 1**

Modiwl sy'n addas i ddechreuwyr ynghyd â myfyrwyr sydd wedi astudio Ffrangeg hyd at TGAU. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llafar, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Bydd myfyrwyr yn dysgu ac ehangu geirfa ac yn dod i ddeall a medru defnyddio gramadeg Ffrangeg. Byddant hefyd yn datblygu eu sgiliau llafar a'u hyder i siarad Ffrangeg mewn dosbarthiadau sgwrsio gyda siaradwr brodorol.


I can be
and a
WHERE YOU
and
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## LCF1004 **FFRANGEG I DDECHREUWYR 2**

### 20 Credyd Semester 2

Modiwl sydd wedi ei anelu at fyfyrwyr sydd wedi cwblhau'r modiwl LCF1003. Nod y modiwl yw adeiladu ar y sgiliau sylfaenol a ddysgwyd yn semester 1 er mwyn cyrraedd safon sy'n cyfateb i Lefel A. Bydd myfyrwyr yn defnyddio a datblygu'r eirfa a'r gramadeg a ddysgwyd yn semester 1, a bydd sgiliau llafar a'r hyder i siarad Ffrangeg yn cael eu datblygu ymhellach mewn dosbarthiadau sgwrsio gyda siaradwr brodorol.

## LCS-1001 **SBAENEG UWCH 1**

### 20 Credyd Semester 1

Modiwl sy'n galluogi i fyfyrwyr sydd wedi gwneud Lefel A ddatblygu sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar drwy ehangu ar y gallu ieithyddol a gafwyd yn ystod Lefel A. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau cyfieithu ac ysgrifennu, yn ogystal â sgiliau llafar/ gwrando. Bydd myfyrwyr hefyd yn adolygu a datblygu meysydd allweddol o ramadeg. Daw'r testunau a'r deunyddiau a ddefnyddir yn y modiwl hwn o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y cyfryngau a darnau llenyddol er mwyn dod i arfer â gwahanol gyweiriau. Bydd myfyrwyr hefyd yn cael cipolwg ar themâu Sbaenaidd penodol a materion sy'n ymwneud â bywyd a chymdeithas gyfoes yn y gwledydd Sbaeneg eu hiaith. Cefnogir dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth trwy Bortffolio Hunan-astudiaeth gyd-gwricwlaidd.

## LCS-1002 **SBAENEG UWCH 2**

### 20 Credyd Semester 2

Mae'r modiwl hwn yn barhad o LCS-1001, a'i nod yw gwella sgiliau llafar, gwrando ac ysgrifenedig Sbaeneg myfyrwyr lefel uwch.

## LCS-1003 **SBAENEG I DDECHREUWYR 1**

### 20 Credyd Semester 1

Modiwl sydd wedi ei anelu at ddechreuwyr a myfyrwyr sydd wedi astudio TGAU Sbaeneg. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu llafar, clywedol ac ysgrifenedig sylfaenol. Mae'n cynnwys cyflwyniad ac adolygiad o elfennau gramadegol allweddol a geirfa ac ymadroddion cyffredin sy'n ymwneud â'r hunan, y teulu, bywyd pob dydd, hobïau, hoff bethau a chas bethau a chwarae rôl. Trwy gymhorthion clywedol/ gweledol, bydd myfyrwyr yn cael eu cyflwyno i ddiwylliant a chymdeithas Sbaen.

## LCS-1004 **SBAENEG I DDECHREUWYR 2**

### 20 Credyd Semester 2

Modiwl sydd wedi ei anelu at fyfyrwyr yn y flwyddyn gyntaf sydd wedi astudio Sbaeneg i Ddechreuwyr a Myfyrwyr Canolradd 1. Nod y modiwl yw datblygu'r sgiliau llafar, clywedol ac ysgrifenedig sylfaenol a ddysgwyd yn semester 1 er mwyn i fyfyrwyr ddatblygu'r hyfedredd sy'n cyfateb i safon Lefel A. Bydd myfyrwyr yn defnyddio'r egwyddorion gramadegol a ddysgwyd yn semester 1 i ysgrifennu darnau estynedig. Byddant hefyd yn canolbwyntio ar strwythurau gramadegol mwy cymhleth. Datblygir sgiliau gwrando trwy ymarferion gwrando a deall gyda thapiau sain a fideo a bydd gofyn i fyfyrwyr roi cyflwyniadau unigol ar bynciau mwy cymhleth.

# YSGOL IAITH, DIWYLLIANT A'R CELFYDDYDAU

## Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

**Cyswllt: Dr Aled Llion Jones:**
aled.llion@bangor.ac.uk

### CXC1016 **LLENYDDIAETH GYFOES**

**10 Credyd Semester 1**

Mae pwyslais y modiwl hwn ar ddatblygu sgiliau ysgrifennu traethodau a thrafod ar lafar drwy ganolbwyntio ar ddetholiad o weithiau gan awduron o'r unfed ganrif ar hugain. Rhoddir sylw i faterion pwysig fel llên-ladrad yn ogystal ag agweddau technegol, e.e. trefnu troednodiadau a dulliau cyfeirio safonol.

### CXC1004 **DEFNYDDIO'R GYMRAEG**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Modiwl ymarferol ei bwyslais sy'n anelu at godi hyder myfyrwyr wrth arfer y Gymraeg yn ysgrifenedig. Mewn cyfres o ddosbarthiadau eglurhaol, trafodir y modd y mae gramadeg yn gweithio yn yr iaith fyw. Ceir trafodaeth ar gategorïau a ffurfiau safonol a cheisir gweld sut y defnyddir hwy mewn detholiad o destunau, mewn sawl cywair.

### CXC1001 **BEIRNIADAETH LENYDDOL YMARFEROL**

**10 Credyd Semester 2**

Mae pwyslais y modiwl hwn ar ddatblygu sgiliau beirniadol myfyrwyr. Ceir cyflwyniad i ddetholiad o ddamcaniaethau beirniadol ac i egwyddorion beirniadaeth lenyddol. Bydd y prif bwyslais ar agweddau ymarferol beirniadaeth lenyddol.

### CXC1019 **LLENYDDIAETH YR OESOEDD CANOL**

**10 Credyd Semester 2**

Cyflwyniad cryno i lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, gan ganolbwyntio ar ddetholion o weithiau chwedlonol ynghyd â gweithiau hanesyddol eu natur.

### CXD1016 **SGRIPTIO TELEDU**

**20 Credyd Semester 1**

Yn y modiwl hwn dysgir myfyrwyr sut i lunio sgript tua 24 munud o hyd ar gyfer pennod o gyfres deledu. Trafodir gofynion cyfres deledu fel cyfrwng dramatig, a gofynnir i'r myfyrwyr gyflwyno dadansoddiad manwl o natur y cymeriadau a llunio cast ar gyfer y gyfres; llunnir braslun o blotiau'r gyfres ac yna grynodeb o gynnwys y bennod; eir ymlaen i lunio bwrdd storïo. Ceir cyfarwyddyd manwl ar sut i lunio deialog, a dysgir sut i gyflwyno sgript orffenedig sy'n dilyn y confensiynau arferol.

### CXC1018 **GWEITHDY CREADIGOL**

**20 Credyd Semester 2**

Un o fodiwlau craidd Cymraeg gydag Ysgrifennu Creadigol yw hwn, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhai sy'n dilyn y cynllun gradd hwnnw. Yn wir, nid oes raid wrth brofiad blaenorol o ysgrifennu creadigol er mwyn dilyn y modiwl: ond yn hytrach ddiddordeb gwirioneddol yn y maes a pharodrwydd i roi cynnig ar wahanol fathau o ysgrifennu creadigol.

### CXC1002 **LLÊN Y CYFNOD MODERN CYNNAR**

**10 Credyd Semester 2**

Dyma gyflwyniad i gyffro llenyddiaeth Gymraeg rhwng tua 1700-1900, cyfnod o drawsnewidiadau gwleidyddol, technolegol a chrefyddol. Sut aeth beirdd ac awduron Cymraeg ati i wynebu her yr oes hon o chwyldro? Yn ogystal â thrafod nifer o 'drobwyntiau' llenyddol sy'n enghreifftio newydd-deb y cyfnod, ystyriwn barhad gwahanol agweddau traddodiadol. Dan sylw fydd llenorion pwysig megis yr emynwyr Williams Pantycelyn ac Ann Griffiths, Radicaliaid megis Jac Glan-y-Gors ac Iolo Morganwg, ac ymgyrchwyr pwysig megis Sarah Jane Rees (Cranogwen).

### CXD1013 **THEATR FODERN EWROP**

**20 Credyd Semester 1**

Yn y modiwl hwn, astudir datblygiad y ddrama fodern yn Ewrop yn y 19eg a'r 20fed ganrif. Bydd rhan gyntaf y modiwl yn trafod y ddrama naturiolaidd a'r ail ran yn trafod yr adwaith i ddatblygiad y ddrama fodernaidd.

### CXC-1033 **O'R SENEDD I'R SWYDDFA**

**20 Credyd Semester 2**

Amcan y modiwl hwn yw arfogi myfyrwyr gyda'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a fydd yn eu galluogi maes o law i gyfrannu at y broses o gynllunio a chynnal y Gymraeg o fewn byd gwaith. Y mae'r modiwl yn tywys myfyrwyr drwy'r broses o gynllunio a gweithredu strategaethau iaith mewn gweithleoedd gan roi blas iddynt hefyd o realiti'r broses drwy ddeuddydd o leoliad gwaith yn un o adrannau'r Brifysgol. Wedi dilyn y modiwl bydd myfyrwyr yn deall gwerth eu sgiliau Cymraeg eu hunain mewn cyd-destun proffesiynol ac yn deall hefyd sut i fynd ati i sicrhau lle amlwg i'r Gymraeg mewn gweithle lle y mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio.

## Modiwlau Cymraeg Ail Iaith / Second Language

### CXC1007 **CYMRAEG LLAFAR (SPOKEN WELSH)**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

This module will develop your spoken Welsh skills, giving attention to various registers of the language, formal and informal. We'll use TV, radio, films and music to get the discussions started. Mae'r modiwl yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llafar. Rhoddir sylw i wahanol gyweiriau'r iaith, o'r tafodieithol i'r ffurfiol. Bydd hyfedredd yn cael ei feithrin drwy drafod materion cyfoes, gyda chyflwyniadau gan y myfyrwyr ar amrywiol bynciau. Defnyddir deunydd cyfredol o'r teledu, radio a byd ffilm i gyflwyno pynciau a sbarduno trafodaeth.

### CXC1005 **YSGRIFENNU CYMRAEG (WRITTEN WELSH)**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

A module designed to hone your written Welsh skills, paying attention to different styles and registers, from formal to informal. You will write regular short pieces, factual and fictional, and receive detailed feedback. Gofynnir i fyfyrwyr ysgrifennu darn byr o Gymraeg yn rheolaidd. Gosodir tasgau o natur ffeithiol (e.e. crynodeb neu fwletin newyddion) a hefyd greadigol (e.e. stori fer neu bortread). Bydd pwyslais y modiwl ar ymarfer ysgrifennu'n raenus ac yn gywir.

### CXC1008 **LLÊN A LLUN (LITERATURE AND IMAGE)**

**10 Credyd Semester 2**

A series of seminars giving you the chance to study different literary genres, e.g., poetry, a novel, a TV drama. Bydd cyfle i astudio pedwar gwahanol genre drwy gyfrwng enghreifftiau diweddar, e.e. casgliad o gerddi, nofel a drama deledu. Dysgir drwy gyfres o seminarau.

### CXC1006 **GOLWG AR LENYDDIAETH 1 (WELSH LITERATURE ACROSS THE CENTURIES)**

**10 Credyd Semester 1**

### CXC1006 **GOLWG AR LENYDDIAETH 2**

**10 Credyd Semester 2**

A series of seminars in which we take a look at some of the highlights of Welsh literature, from the earliest poetry and the medieval legends of the Mabinogi, to the most recent works. Yn ystod y ddau fodiwl hyn bydd y myfyrwyr yn bwrw golwg ar rai o uchafbwyntiau llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, e.e. barddoniaeth Taliesin, Aneirin a Dafydd ap Gwilym a rhyddiaith Pedair Cainc y Mabinogi. Dysgir drwy gyfres o seminarau.

# YSGOL IAITH, DIWYLLIANT A'R CELFYDDYDAU

## Cerddoriaeth

**Cyswllt: Mr Stephen Rees**
s.p.rees@bangor.ac.uk

### WXC1004 **CYFLWYNIAD I HARMONI A GWRTHBWYNT**

**20 Credyd Semester 1**

Datblygu dealltwriaeth o elfennau iaith cerddoriaeth (melodi, harmoni, gwrthbwynt, rhythm) drwy astudio ymarfer cyfansoddi yng nghyfnodau'r Dadeni hwyr a'r Baroc.

### WXC1300 **CERDDORIAETH ERS 1850**

**20 Credyd Semester 1**

Cyflwyno astudiaethau cerddoregol trwy arolwg o hanes cerddoriaeth rhwng 1850 a heddiw, ynghyd â chyfres o weithdai ar sgiliau astudio. Mae'r modiwl yn cynnig arolwg o weithiau mewn amrywiaeth o genres 'clasurol' a phoblogaidd. Gosodir newidiadau a datblygiadau mewn arddull gerddorol yn eu cyd-destunau hanesyddol, diwylliannol, cymdeithasol, daearyddol ac esthetaidd.

### WXC1113 **CYFANSODDI A CHELF SONIG A**

**20 Credyd Semester 1**

Nod y modiwl hwn yw arfogi myfyrwyr â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol o gyfansoddi gan ddefnyddio offerynnau, lleisiau a thechnoleg. Mi fydd y myfyrwyr yn dysgu sut i gyfansoddi cerddoriaeth a chreu celf sonig gan ddefnyddio enghreifftiau o weithiau arwyddocaol ac ymagweddau creadigol o'r 20fed a'r 21ain ganrif.

### WXC1114 **CYFANSODDI A CHELF SONIG B**

**20 Credyd Semester 2**

Mae'r modiwl hwn yn gymar i Gyfansoddi a Chelf Sonig A. Bydd y modiwl yn darparu'r sylfaen sy'n ofynnol i symud ymlaen i fodiwlau ail flwyddyn sy'n archwilio cyfansoddiad a chreadigrwydd sonig ymhellach.

### WXC1016 **PERFFORMIO UNAWDOL BLWYDDYN 1**

**20 Credyd Semester 2**

Cyfuno rhaglen o hyfforddiant ar offeryn neu lais ynghyd â chyflwyniad i amrywiaeth o faterion sydd o bwys i berfformwyr, gan gynnwys paratoi a chyflwyno datganiad, technegau ymarfer effeithiol, gweithio gyda cherddorion eraill, gwahanol ddulliau o ddehongli. Er mai yn Semester 2 mae'r modiwl hwn yn rhedeg, mae gwersi offerynnol/lleisiol yn dechrau yn Semester 1. Mae'r modiwl hwn ar gael yn unig i fyfyrwyr sydd yn dilyn gradd mewn Cerddoriaeth neu radd cydanrhydedd mewn Cerddoriaeth gyda phwnc arall (e.e. Cymraeg).

### WXC1301 **CERDDORIAETH 1550–1850**

**20 Credyd Semester 2**

Estyn astudiaethau cerddoregol trwy arolwg o hanes cerddoriaeth rhwng 1550 a 1850, ynghyd â chyfres o weithdai ar sgiliau astudio uwch. Gosodir newidiadau a datblygiadau mewn arddull gerddorol yn eu cyd-destunau hanesyddol, diwylliannol, cymdeithasol, daearyddol ac esthetaidd.



# YSGOL IAITH, DIWYLLIANT A'R CELFYDDYDAU

## Drama, Theatr a Pherfformio

**Cyswllt: Ffion Haf Evans**
ffion.haf@bangor.ac.uk

### WXC 1000 **CYFLWYNIAD I YSGRIFENNU DRAMA**

**20 Credyd Semester 1**

Mae Cyflwyniad i Ysgrifennu Drama yn rhoi cyfle i fyfyrwyr archwilio'r broses ysgrifennu ar gyfer perfformio. Gan ganolbwyntio'n bennaf ar ysgrifennu gwaith newydd i'r llwyfan, sut mae rhywun yn datblygu'r ymarfer o lunio naratif, datblygu cymeriad, dadansoddi strwythur a drafftio syniadau i fod yn gynhyrchiad? Edrychir ar y berthynas a'r cydweithio rhwng yr awdur â'r cyfarwyddwr a'r actorion ynghyd â gwerthuso'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau allweddol i ysgrifennu ar gyfer y sgrin.

### WXC 1120 **DYFEISIO THEATR**

**20 Credyd Semester 2**

Mae Creu Theatr yn gyfle i gael eich cyflwyno i faes pwnc theatr a pherfformio. Archwilio o fewn gweithdai ymarferol, sut i greu eich gwaith perfformio eich hun gyda grŵp o bobl eraill, sut y gall rhywun lunio drama wreiddiol, a datblygu fel actor, cyfarwyddwr, awdur, dylunydd… wrth wneud gwaith byw. Cewch eich cyflwyno i ddramâu clasurol, cyfoes, abswŕd ac ysgrifennu rhai newydd ynghyd â sawl ymarferydd theatr sydd wedi ffurfio'r ffordd yr ydym yn gwneud ac yn gwylio gwaith perfformio byw heddiw. Archwilir prosesau cynhyrchu, cewch eich annog i fynd i weld perfformiadau byw a gwaith perfformio digidol gyda chyfle cyffrous i greu eich darn perfformio eich hun erbyn diwedd y tymor. Mae croeso i chi berfformio, ysgrifennu, cyfarwyddo'r gwaith perfformio a chael cyfle i archwilio ac arbrofi.

### CXD-1013 **THEATR FODERN EWROP**

**20 Credyd Semester 1**
**(Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd)**

Yn y modiwl hwn astudir datblygiad y ddrama fodern yn Ewrop yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Bydd rhan gyntaf y modiwl yn trafod y ddrama naturiolaidd, gan ganolbwyntio ar waith dramodwyr fel Ibsen a Strindberg. Bydd ail ran y modiwl yn trafod yr adwaith datblygiad y ddrama fodernaidd, gan ganolbwyntio ar ddramâu Mynegiadol, dramâu Brecht a Theatr yr Abswrd. Astudir detholiad o destunau sy'n cynrychioli'r gwahanol ddramodwyr a mudiadau.

### CXD1016 **SGRIPTIO TELEDU**

**20 Credyd Semester 1**
**(Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd)**

Yn y modiwl hwn dysgir myfyrwyr sut i lunio sgript tuag 24 munud o hyd ar gyfer pennod o gyfres deledu. Bydd chwe cham i'r gweithgaredd hwn. Yn gyntaf, trafodir gofynion cyfres deledu fel cyfrwng dramatig; yn ail, gofynnir i'r myfyrwyr gyflwyno dadansoddiad manwl o natur y cymeriadau, yn drydydd, gofynnir iddynt lunio cast ar gyfer eu cyfres; yn bedwerydd gofynnir iddynt lunio braslun o blotiau'r gyfres ac yna grynodeb o gynnwys y bennod a ddeialogir; yn bumed, eir ymlaen i rannu'r bennod yn olygfeydd trwy lunio bwrdd storïo. Y cam olaf yw llunio'r ddeialog a cheir cyfarwyddyd manwl ar sut i wneud hynny. Dysgir hefyd sut i gyflwyno sgript orffenedig sy'n dilyn y confensiynau arferedig.

### UXC1038 **CYFLWYNIAD I YMARFER Y CYFRYNGAU**

**20 Credyd Semester 1**
**(Ysgrifennu Creadigol a Phroffesiynol, Llenyddiaeth Saesneg, Ffilm, y Cyfryngau a Newyddiaduraeth)**

Dyma fodiwl sydd yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r sgiliau a'r technegau sylfaenol a fydd yn eu galluogi i archwilio egwyddorion cynhyrchu'r cyfryngau trwy waith creadigol ym maes ffilm a radio.

## UXC1062 **IAITH FFILM**

**20 Credyd Semester 2**
**(Ysgrifennu Creadigol a Phroffesiynol, Llenyddiaeth Saesneg, Ffilm, y Cyfryngau a Newyddiaduraeth)**

Mae'r modiwl hwn yn fodd o alluogi myfyrwyr i ddysgu hanfodion dadansoddi'r ddelwedd symudol. Bydd myfyrwyr ar y modiwl yn dysgu terminoleg dechnegol a fydd yn eu cynorthwyo i ddadansoddi'r ffordd y mae ffilm yn cyfathrebu ystyr.



# YSGOL BUSNES BANGOR

**Cyswllt: Edward Jones**
e.t.jones@bangor.ac.uk

**Ar gyfer y modiwlau isod mae'r darlithoedd yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg:**

## ACB-1600: **MARCHNATA**

**20 Credyd neu 10 Credyd ECTS Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad i amcanion a nodweddion marchnata fel swyddogaeth fusnes. Mae'n canolbwyntio ar y broses a ddefnyddir gan sefydliadau i adnabod anghenion a dyheadau cwsmeriaid, i bennu pa farchnadoedd targed y gellir eu gwasanaethu orau, ac i gynllunio rhaglenni priodol i wasanaethu'r marchnadoedd hyn. Mae marchnata yn swyddogaeth fusnes craidd ac yn athroniaeth ar draws y sefydliad. Mae'r cysyniad marchnata yn mynd at wraidd angen sefydliad i fynegi a dilyn amcanion, gan greu gwerth i'w wahanol randdeiliaid. Mae'r modiwl yn pwysleisio'r cysyniad o werth i gwsmeriaid, mae hefyd yn archwilio a phwyso a mesur y penderfyniadau a'r dulliau sydd ar gael i sefydliadau roi gwerth i gwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys ystyried gwahanol elfennau o'r dulliau marchnata amrywiol, fel swyddogaeth cynnyrch, brand, pris, hyrwyddo, lle a phobl.

## ACB-1300: **ECONOMEG CORE**

**20 Credyd neu 10 Credyd ECTS Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl hwn yn darparu cyflwyniad i Economeg drwy ddilyn y maes llafur y prosiect CORE (Curriculum in Open-access Resources in Economics). Bydd y cwricwlwm CORE yn arfogi myfyrwyr i ddeall sut y mae'r economi wedi esblygu a sut mae'n gweithio trwy ddod â datblygiadau mewn ymchwil economeg dros y tri degawd diwethaf i'r cwricwlwm, ynghyd â gwersi o hanes economaidd a phrofiad cymharol gwahanol wledydd.

**Ar gyfer y modiwlau isod, bydd y darlithoedd yn Saesneg gyda'r tiwtorialau yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg:**

## ADB-1501 **BANCIAU & MARCHNADAU ARIANNOL**

**20 Credyd neu 10 Credyd ECTS Semester 1**

Bydd y modiwl hwn yn rhoi egwyddorion economaidd i fyfyrwyr ddeall strwythur marchnadoedd ariannol a swyddogaeth a gweithgareddau banciau a chwmnïau ariannol yn gyffredinol. Gan ddatblygu'r syniad o anghymesuredd gwybodaeth, bydd y modiwl yn edrych ar sut mae marchnadoedd ariannol, a chwmnïau ariannol fel banciau, yn effeithio ar yr economi yn gyffredinol. Bydd yn edrych ar swyddogaeth cyfraddau llog a sut mae marchnadoedd bondiau a marchnadoedd stoc yn gweithredu. Bydd y modiwl yn ymdrin yn feirniadol â'r strwythur ariannol ac yn galluogi i fyfyrwyr ddeall sut mae banciau'n gweithio ac yn cael eu rheoli, gan gynnwys arloesi ariannol a pham mae banciau'n cael eu rheoleiddio. Mae marchnadoedd ariannol yn dueddol o fethu a bydd y modiwl yn egluro pam mae argyfyngau ariannol yn digwydd. Bydd yn dod i ben drwy ystyried y cysyniad o greu adnau, drwy edrych ar y cyfryngau mae banciau canolog yn eu defnyddio i reoli'r cyflenwad arian, ac ystyried y polisi o dargedu chwyddiant. Byddwn yn ychwanegu at y modiwl gydag astudiaeth o fathau o gwmnïau bancio a dadansoddiad cymharol o systemau bancio.

## ADB-1110 **CYFRIFEG RHEOLAETH AC ARIANNOL**

**20 Credyd neu 10 Credyd ECTS Semester 1 a 2**

Nodir mai modiwl-dwbl yw hwn sy'n cyflwyno cyfrifeg ariannol a chyfrifeg rheolaeth.

Cyfrifeg ariannol: Rhoi cyflwyniad i sgiliau sylfaenol cadw cyfrifon, a datblygu dealltwriaeth eang o theori, cysyniadau a chonfensiynau cyfrifeg.

Cyfrifeg rheolaeth: Rhoi cyflwyniad i swyddogaeth cyfrifeg rheolaeth mewn gwneud penderfyniadau a rheoli sefydliad.

## ADB-1114 **DULLIAU DADANSODDI BUSNES**

**20 Credyd neu 10 Credyd ECTS Semester 1 a 2**

Mae hwn yn gwrs sylfaen mewn sgiliau dadansoddeg busnes sy'n cynnwys dulliau ystadegol, casglu a dehongli data, dosraniadau tebygolrwydd, ffurfio a phrofi rhagdybiaethau, cydberthyniad a dadansoddiad atchwel. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau hyn yn Microsoft Excel.

## ADB-1105 **EGWYDDORION RHEOLI BUSNES**

**20 Credyd neu 10 Credyd ECTS Semester 1 a 2**

Amcanion y cwrs hwn yw rhoi cyflwyniad i fusnes, rheolaeth a sefydliadau. Mae sefydliadau'n allweddol i'r ffordd yr ydym yn trefnu cymdeithas, ac mae astudiaeth o sefydliadau yn ganolog i ddatblygu dealltwriaeth nid yn unig o fusnes a rheolaeth, ond nifer o agweddau eraill ar ein bywydau. Mae'r cwrs yn edrych ar gyd-destun busnes, trefniadaeth gwaith a natur rheolaeth.

## ADB-1117 **TECHNEGAU A DADANSODDI CYLLIDOL**

**20 Credyd neu 10 Credyd ECTS Semester 2**

Mae'r modiwl yn cynnwys elfen efelychu masnachu sy'n rhedeg ochr yn ochr â darlithoedd wythnosol ar fathemateg gyllidol a thechnegau dadansoddol craidd. Nod y modiwl yw datblygu sgiliau mathemateg a dadansoddi i lefel sy'n galluogi defnydd o dechnegau meintiol mewn ystod eang o weithgareddau busnes ac economeg, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) masnachu gwarantau a buddsoddi. Mae rhan greiddiol y modiwl yn cyflwyno mathemateg a thechnegau cyllidol sy'n berthnasol i wneud penderfyniadau mewn ystod eang o gyd-destunau. Pwrpas y rhan efelychu masnachu yw datblygu'r defnydd o dechnegau dadansoddi a phrisio yng nghyd-destun penodol buddsoddiad y farchnad stoc, gan ddefnyddio modelu taenlenni a masnachu gwarantu efelychu mewn amgylchedd delio rhithwir.

# YSGOL HANES, Y GYFRAITH A GWYDDORAU CYMDEITHAS

## Y Gyfraith

**Cyswllt: Dr Hayley Roberts**
hayley.roberts@bangor.ac.uk

### SXL1110 **CYFRAITH GYHOEDDUS**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o gyfraith gyfansoddiadol yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, yn cynnwys elfennau cyfraith datganoli. Bydd yn edrych ar y rheolau sy'n rheoleiddio prif gyrff llywodraeth, a'r berthynas rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth.

### SXL1112 **CYFRAITH CONTRACT**

**20 Credyd Semester 2**

Mae'r modiwl yn rhoi sylfaen i'r myfyriwr ar yr hyn sy'n rheoli ffurfio a gorfodi contractau (addewid, derbyn a chytundeb) meysydd gallu, bwriad, cyfreithlondeb a sicrwydd telerau.

### SXL1201 **Y GYFRAITH, CYFIAWNDER A'R WEITHDREFN**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl hwn yn rhoi fframwaith i astudio'r gyfraith wrth edrych ar y llysoedd, y farnwriaeth, cyfreithwyr a hawliau dynol ymysg testunau eraill.

### SXL1115 **SGILIAU CYFREITHIOL**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl yn cyflwyno sgiliau astudio cyfreithiol ymarferol, megis ysgrifennu traethodau cyfreithiol, a datrys problemau cyfreithiol. Bydd cyfle i fyfyrwyr gymryd rhan mewn achosion ffug lys yn ystod Semester 2.

### SCL1115 **Y GYFRAITH YN GYMRAEG**

**20 Credyd Semester 2**

Mae'r modiwl yn cynnwys elfen o ddatblygu sgiliau ymchwil gyfreithiol er mwyn cyflawni tasgau megis drafftio llythyrau cyfreithiol, llunio nodiadau achos, drafftio deddfwriaethau ac yn y blaen. Bydd y modiwl yn cynnig cyflwyniad i amryw o bynciau cyfreithiol, er enghraifft cyfraith trosedd, cyfraith rhyngwladol a chyfraith datganoli.

### SXL1200 **CYFRAITH TROSEDD**

**20 Credyd Semester 1**

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad i'r gyfraith droseddol sylweddol yng Nghymru a Lloegr, a'r materion cyd-destunol ehangach sy'n ymwneud â chyfraith trosedd a chyfiawnder. Mae'n archwilio egwyddorion cyffredinol atebolrwydd troseddol, troseddau angheuol a throseddau nad ydynt yn angheuol yn erbyn y person, a throseddau dethol yn erbyn eiddo. Bydd myfyrwyr hefyd yn astudio amddiffynfeydd a rheolau mewn perthynas â phartïon i droseddu, a byddant yn dadansoddi datblygiadau cyfoes ym maes cyfraith trosedd.



# YSGOL HANES, Y GYFRAITH A GWYDDORAU CYMDEITHAS

## Gwyddorau Cymdeithas

**Cyswllt: Dr Cynog Prys**
c.prys@bangor.ac.uk

### SCS1004 **CYMDEITHASEG A'R BYD CYFOES**

**20 Credyd Semester 1**

Ceir cyflwyniad i'r prif theorïau cymdeithasegol, gan ganolbwyntio ar bersbectifau ffwythiannaeth a theori gwrthdaro. Edrychir ar waith Emile Durkheim a Karl Marx a'u gwaith arloesol mewn ffurfio theorïau cymdeithasegol cynnar. Yna edrychir ar sefydliadau cymdeithasol yn y gymdeithas gyfoes, gan gymhwyso'r theorïau a'r persbectifau at ddadansoddi sefydliadau fel y teulu, addysg, gwaith a dosbarth cymdeithasol.

### HAC 1001 **Y WLADWRIAETH LES**

**20 Credyd Semester 1**

Dyma fodiwl rhyngddisgyblaethol yn cyfuno elfennau o hanes modern â pholisi cymdeithasol yng Nghymru a Prydain. Mae'r modiwl yn edrych ar ddatblygiad polisïau cymdeithasol o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at y presennol, a gwneir hynny o fewn cyd-destun gwleidyddol, economaidd, a chymdeithasol. Ystyrir pwy yw'r prif ddarparwyr lles, ynghyd a sut y telir am les cymdeithasol. Edrychir yn arbennig ar y dimensiwn Cymreig wrth ystyried anghenion, polisïau cymdeithasol a darpariaeth lles yng Nghymru yn sgil datganoli.

### SCU 1006 **RHANIADAU CYMDEITHASOL**

**20 Credyd Semester 2**

Er bod gan ein cymdeithas ystod eang o adnoddau fel cyfoeth, statws a phŵer, rydym yn byw mewn cymdeithas anghyfartal iawn, wedi'i nodweddu gan anghydraddoldeb a rhaniad cymdeithasol. Bydd y modiwl yn cychwyn drwy ystyried categorïau haeniad cymdeithasol, gan gynnwys dosbarth cymdeithasol, rhyw ac ethnigrwydd, cyn canolbwyntio ar feysydd cyfoes cymdeithasegol fel oedran, rhywioldeb, mynegiant rhyw, anabledd, crefydd, cenedl ac ardal ddaearyddol. Anogir myfyrwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o sut mae rhaniadau cymdeithasol yn treiddio trwy'r drefn gymdeithasol yn gyhoeddus ac yn breifat, gan arwain at wahaniaethu ac anfantais.

### SCY1004 **CYFLWYNIAD I DROSEDDEG**

**20 Credyd Semester 2**

Troseddeg yw un o'r meysydd astudio mwyaf diddorol. Mae trosedd yn fater pwysig i gymdeithas ac yn bwnc gwleidyddol llosg mewn llawer o wledydd, gan ei fod yn gysylltiedig â phryderon am gyflwr cymdeithas. Mae "Cyflwyniad i Droseddeg" yn ymgyfarwyddo myfyrwyr blwyddyn gyntaf â ffyrdd o feddwl am drosedd ac yn cyflwyno rhai o'r prif safbwyntiau damcaniaethol o fewn troseddeg.

### SCY 1002 **CYFLWYNIAD I GYFIAWNDER TROSEDDOL**

**20 Credyd Semester 1**

Bwriad y modiwl hwn yw rhoi dealltwriaeth gadarn o'r ffyrdd y mae trosedd, yng Nghymru a Lloegr, yn dod i sylw'r awdurdodau, sut mae troseddau'n cael eu mesur, sut mae troseddu yn cael ei blismona, sut mae personau a gyhuddir yn cael eu dwyn i dreial ac mae'r rhai sy'n euog yn cael eu dedfrydu a'u cosbi. Mae'r modiwl yn cymryd trosolwg hanesyddol o darddiad cyfraith droseddol, yr heddlu, y llysoedd troseddol a'r carchar, gan archwilio'r newidiadau cymdeithasol, economaidd ac athronyddol sylweddol sydd wedi helpu i siapio'r system cyfiawnder troseddol a chosbi modern.

# YSGOL HANES, Y GYFRAITH A GWYDDORAU CYMDEITHAS

## Hanes, archaeoleg a threftadaeth

**Cyswllt: Dr Mari Elin Wiliam**
e.wiliam@bangor.ac.uk

### HXC-1007 **CYMRU: TYWYSOGION I DUDURIAID**

**20 Credyd Semester 1**

O ddyfodiad y Normaniaid i ddiwygiadau'r cyfnod Tuduraidd: dyna grynhoi cwmpas cronolegol y modiwl hwn. Bwriad y modiwl yw cyflwyno rhai o ddatblygiadau pellgyrhaeddol hanes Cymru yn ystod y cyfnod c.1060-1603. Bydd cyfle i edrych ar gymeriadau blaenllaw fel Llywelyn ein Llyw Olaf, Owain Glyndŵr a Harri VII, yn ogystal â chyfle i wyntyllu newidiadau gwleidyddol, diwylliannol a chrefyddol y cyfnod.

### HXC1006 **CYMRU YN Y BYD MODERN**

**20 Credyd Semester 2**

Amcan y modiwl hwn yw cynnig arolwg cynhwysfawr o hanes Cymru yn y cyfnod modern, gan ddangos sut y bu i Gymru adlewyrchu'r cyfnewidiadau enfawr a gafwyd yng ngwareiddiad gwledydd y gorllewin. Mae'r modiwl yn olrhain trawsnewidiad Cymru o gyfnod y chwyldro diwydiannol ymlaen i ddyfodiad datganoli ddiwedd yr ugeinfed ganrif, a thu hwnt i hynny.

### HAC1001 **Y WLADWRIAETH LES**

**20 Credyd Semester 2**

Dyma fodiwl rhyngddisgyblaethol yn cyfuno elfennau o hanes modern â polisi cymdeithasol yng Nghymru a Prydain. Mae'r modiwl yn edrych ar ddatblygiad polisïau cymdeithasol o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at y presennol, a gwneir hynny o fewn cyd-destun gwleidyddol, economaidd, a chymdeithasol. Ystyrir pwy yw'r prif ddarparwyr lles, ynghyd a sut y telir am les cymdeithasol. Edrychir yn arbennig ar y dimensiwn Cymreig wrth ystyried anghenion, polisïau cymdeithasol a darpariaeth lles yng Nghymru yn sgil datganoli.

## Modiwlau gyda grwpiau seminar Cymraeg

Bydd darlithoedd y modiwlau isod yn Saesneg, gyda'r opsiwn (os ydy'r niferoedd yn caniatáu) i ymuno â grŵp seminar Cymraeg. Cewch gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl eich dewis.

### HXC-1003 **THE SIX LIVES OF HENRY VIII**

### HXH-1004 **INTRODUCTION TO MODERN HISTORY**

### HXH-1011 **EUROPE IN THE HIGH MIDDLE AGES**



# YSGOL HANES, Y GYFRAITH A GWYDDORAU CYMDEITHAS

## Athroniaeth a Chrefydd

**Cyswllt: Dr Gareth Evans-Jones**
g.evans-jones@bangor.ac.uk

### VPC-1102 **ATHRONIAETH HYNAFOL**

**20 Credyd Semester 1**

Cyniga'r modiwl hwn gyflwyniad eang i fyfyrwyr i faes Athroniaeth Hynafol. Gan ddechrau gyda'r Cyn-Socratiaid, byddem yn archwilio themâu a nodweddion o'r math(au) o athroniaeth a ddatblygodd yng nghyfnod cynnar y meddwl Gorllewinol. Byddem yna'n ystyried yr athronydd arwyddocaol Plato, a chan archwilio ei Weriniaeth mewn manylder, bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth agos o'r testun, yn enwedig mewn perthynas ag agweddau allweddol megis ei ddamcaniaeth am y Ffurfiau, natur cyfiawnder, a thair rhan yr enaid. Adeiledir ar hyn drwy ystyried athronwyr diweddarach, gan gynnwys Aristoteles, ac ysgolion meddyliol eraill, megis yr Epicureaid a'r Stoiciaid. Pan yn briodol, byddem yn ystyried y modd y gellid cymhwyso'r athroniaethau hynafol hyn i feddwl a chymdeithas gyfoes.

### VPC-1303 **CYFLWYNIAD I GRISTNOGAETH**

**20 Credyd Semester 2**

Amcan y modiwl hwn yw darparu myfyrwyr â throsolwg eang o gyfluniad hanesyddol a chrefyddol Cristnogaeth. Bydd y modiwl yn dechrau ag archwiliad o hanes datblygiad Cristnogaeth, gan gyfeirio at gyfansoddiad y Testament Newydd, dysgeidiaeth Iesu, a sefydlu'r Eglwys Fore. Wedi gwneud hynny, byddem yn ystyried datblygiad yr Eglwys Gristnogol, gan sylwi'n benodol ar ddatblygiad y gwahanol enwadau Cristnogol. Yn y cyswllt hwn, bydd y modiwl yn gwerthuso'r gwahanol syniadau diwinyddol, ideolegau, a chysyniadau sydd gan y gwahanol enwadau. Sylwn, er enghraifft ar y Tystion Jehofa a grwpiau 'Cristnogol' yr asgell chwith. Yn ogystal, ystyrir agweddau penodol ar ddiwinyddiaeth Gristnogol, gan gynnwys athrawiaeth y Drindod Sanctaidd a Christoleg. Byddem wedyn yn asesu'r modd yr ymarferir Cristnogaeth heddiw drwy archwilio themâu megis bedydd, arwyddocâd y cymun, ac ymarferoldeb y ffydd Gristnogol mewn cyd-destun cymdeithasol anghristnogol. Pwrpas y modiwl, felly, yw annog myfyrwyr i ennyn dealltwriaeth o wahanol bynciau cysylltiedig â Christnogaeth, gan drafod seiliau'r grefydd a'r sawl sy'n eu hystyried eu hunain yn 'Gristnogion'.



# YSGOL GWYDDORAU NATURIOL

## Amgylchedd, Cadwraeth a Daearyddiaeth

**Cyswllt: Dr Paula Roberts**
p.roberts@bangor.ac.uk

**Cyswllt Daearyddiaeth: Dr Eifiona Lane**
eifiona.thomaslane@bangor.ac.uk

### ONC1001 **DADANSODDI DATA AMGYLCHEDDOL**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Cyflwyniad i sgiliau astudio a datblygiad galluoedd llafar ac ysgrifenedig yng nghyd-destun sgiliau cyflwyno a methodoleg amgylcheddol/hamdden.

### DXC1000/1007 **TIWTORIALAU ACADEMAIDD A SGILIAU ALLWEDDOL**

**10/20 Credyd Semester 1 a 2**

Cyfres o ddosbarthiadau tiwtorial mewn grwpiau bach i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, dadansoddi, a gwerthuso gwybodaeth wyddonol. Cymorth cyffredinol ar gyfer yr ystod gyfan o fodiwlau.

### DXC1303 **METHODOLEG MAES**

**10 Credyd Semester 2**

Modiwl ymarferol sy'n cynnwys uned maes preswyl ar y cyd rhwng prifysgolion Bangor, Aberystwyth ac Abertawe. Mae'n gyfle gwych i gydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg gyda myfyrwyr o sefydliadau eraill yng Nghymru. Nid oes arholiad: bydd myfyrwyr yn cael eu hasesu trwy gynhyrchu portffolio.

### DXC1006 **GWAITH MAES – CREU ERYRI**

**20 Credyd Semester 2**

Gwaith maes yn edrych yn uniongyrchol ar y prosesau daearegol, amgylcheddol a dynol sy'n cyfrannu tuag at dirlun, a strwythur cymunedol a diwydiannol Eryri.

### DXC1004 **CYFLWYNIAD I DDAEARYDDIAETH DYNOL**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl yn cyflwyno meddylfryd daearyddol i gysyniadau globaleiddio – gofod a lle, pobl ac amgylchedd, trefoli, tlodi a datblygu, hunaniaeth a gwahaniaeth, poblogaeth, mudo, ethnigrwydd a chenedlaetholdeb, a chynaladwyedd. Byddwn yn ystyried y berthynas rhwng pobl a'u lle mewn amgylchedd naturiol, eu sefyllfa economaidd a gwleidyddol.



# YSGOL GWYDDORAU NATURIOL

## Bioleg a Sŵoleg

**Cyswllt: Dr Stella Farrar**
s.farrar@bangor.ac.uk

### BSC1028 **TIWTORIALAU BLWYDDYN 1**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Cyfres o ddosbarthiadau tiwtorial i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, dadansoddi, a gwerthuso gwybodaeth wyddonol. Cymorth cyffredinol ar gyfer yr ystod gyfan o fodiwlau.

### BSC1031 **SGILIAU YMARFEROL 2**

**20 Credyd Semester 2**

Gan adeiladu ar y sgiliau a ddatblygir yn Semester 1, rhoi profiad o ddylunio a chynnal arbrofion yn y labordy ac yn y maes, technegau i gasglu a dadansoddi data, ac adrodd canlyniadau.

# YSGOL GWYDDORAU EIGION

**Cyswllt : Dr Dei Huws**
d.g.huws@bangor.ac.uk

### ONC1001 **DADANSODDI DATA AMGYLCHEDDOL**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl yn helpu myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau a ddefnyddir gan wyddonwyr naturiol ee. sgiliau TG, defnydd effeithiol o'r cyfleusterau chwilio'r llyfrgell, cyfrifiadau mathemategol sylfaenol, y dull gwyddonol, dadansoddi ystadegol, a dylunio arbrofol.

### OSC1000 **TIWTORIAL 1**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Cyflwynir yr ystod o sgiliau sydd eu hangen er mwyn llwyddo wrth ddilyn cwrs gradd yn y maes Gwyddorau Eigion. Bydd y myfyrwyr yn sgwrsio a chyfathrebu am egwyddorion a phroblemau gwyddonol.



# YSGOL CYFRIFIADUREG A PHEIRIANNEG ELECTRONIG

**Cyswllt: Daniel Roberts**
d.r.g.roberts@bangor.ac.uk

## Cyfrifiadureg

**Cyswllt : Dr Llyr ap Cenydd**
llyr.ap.cenydd@bangor.ac.uk

### ICC-1112 **CYFLWYNIAD I SYSTEMAU MEWNBLANEDIG**

**10 Credyd Semester 2**

Nod y modiwl hwn yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o gysyniadau sylfaenol Systemau Sefydledig. Bydd rhan fwyaf y modiwl yn ymarferol, gan ddatblygu profiad o gadwyn offer cyffredin i feithrin y sgiliau sy'n angenrheidiol i adeiladu systemau syml. Datblygu caledwedd a meddalwedd i gyflawni nodau penodol, profi a gwerthuso canlyniadau.

### ICC-1221 **MATHEMATEG AR GYFER CYFRIFIADUREG**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl hwn yn gosod y sylfaen mewn meddwl cyfrifiannol ac yn cyflwyno dealltwriaeth o'r fathemateg sylfaenol sy'n sail i holl gyfrifiadura. Mae'r modiwl hefyd yn rhoi profiad o ddelio â'r strwythurau mathemategol sy'n sail i strwythurau rhaglennu a data, ynghyn â chynnwys adolygiad o algebra elfennol ac ymarfer ag ef.

## Peirianneg Electronig

**Cyswllt : Dr Iestyn Pierce**
i.pierce@bangor.ac.uk

### ICC-1112 **CYFLWYNIAD I SYSTEMAU MEWNBLANEDIG**

**10 Credyd Semester 2**

Nod y modiwl hwn yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o gysyniadau sylfaenol Systemau Sefydledig. Bydd rhan fwyaf y modiwl yn ymarferol, gan ddatblygu profiad o gadwyn offer cyffredin i feithrin y sgiliau sy'n angenrheidiol i adeiladu systemau syml. Datblygu caledwedd a meddalwedd i gyflawni nodau penodol, profi a gwerthuso canlyniadau.

### ICC-1301 **EGWYDDORION TRYDANOL AC ELECTRONIG**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno prif dechnegau dadansoddi cylchedau a dangos bod hwn yn fframwaith allweddol o beirianneg electronig a dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r ffiseg sylfaenol sy'n pennu priodweddau electronig deunyddiau a ddefnyddir yn y diwydiant electroneg.

### ICC-1302 **DYLUNIO CYLCHEDAU**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl yma yn darparu hanfodion dadansoddi a dylunio cylchedau analog a digidol yn seiliedig ar ddyfeisiau arwahanol i baratoi myfyrwyr at y modiwlau electroneg analog a digidol yn yr ail flwyddyn.

# YSGOL CYFRIFIADUREG A PHEIRIANNEG ELECTRONIG

## Dylunio Cynnyrch

**Cyswllt: Peredur Williams**
i.p.williams@bangor.ac.uk

**Mae hi'n bosib cofrestru ar gyfer y Cwrs Dylunio Cynnyrch drwy'r Gymraeg (W241), ac astudio pob modiwl drwy'r Gymraeg.**

### XUC 1043 **DYLUNIO A CHYFATHREBU**

**30 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddechrau datblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i fod yn ddylunydd ac yn ymarferydd proffesiynol drwy dasgau dylunio a gweithgynhyrchu â ffocws byr. Bydd y myfyriwr yn creu dogfennau sgiliau CV proffesiynol. Mae'r modiwl yn galluogi myfyrwyr i ddechrau datblygu meddylfryd creadigol a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyfleu eu syniadau'n effeithiol mewn 2D drwy dechnegau braslunio a chyfathrebu graffigol. Mae'r modiwl hefyd yn galluogi myfyrwyr i ddechrau datblygu eu sgiliau prototeipio a gweithgynhyrchu 3D drwy ddefnyddio stiwdio prototeipio masnachol a pheiriannau gweithdy. Trwy weithgareddau gweithdy bydd myfyrwyr yn datblygu eu gwybodaeth am arferion Iechyd a Diogelwch ac eiddo materol. Mae hefyd yn dechrau datblygu gwybodaeth a chymwyseddau myfyrwyr wrth ddefnyddio Dylunio Drwy Gymorth Cyfrifiadur, argraffu 3D a defnyddio meddalwedd graffig digidol (Adobe Photoshop, Darlunydd ac InDesign).

### XUC 1044 **DYLUNIO A GWNEUTHURIAD 1**

**30 Credyd Semester 1 a 2**

Modiwl 8 wythnos yw hon, a bydd yn cynnwys naill ai un neu ddau o friffiau dylunio gan gwmni allanol. Bydd y prosiect dylunio yn cyflwyno myfyrwyr i Broses Ddylunio Bangor, a fydd yn cael ei ddefnyddio i strwythuro'r gwaith o reoli prosiectau dylunio ac mae'n cynnwys pedwar cam a elwir yn gatiau (neu crits). Yn ogystal â'r astudiaethau dylunio, bydd cyfres wythnosol o ymarferion a sesiynau a addysgir yn cynnwys Graffeg Ddigidol, technoleg rheoli (Arduino) a sesiwn gweithdy i ddatblygu sgiliau a chymwyseddau gweithgynhyrchu drwy her ddylunio bwrpasol. Bydd asesu yn gyfuniad o waith dylunio, cyflwyniadau (uchafswm o 5 munud), tystiolaeth o ymarferion wedi'u cwblhau a phortffolio ansawdd CV.

### XUC 1047 **ARFERION PROFFESIYNOL 1**

**30 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y myfyrwyr o'r agweddau proffesiynol sy'n gysylltiedig â gyrfa mewn dylunio a gweithgynhyrchu cynnyrch. Mae'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn yn y gweithle, rheoli'r gweithle, arweinyddiaeth, arloesi ynghyd â materion allweddol sy'n ymwneud â dylunio a gweithgynhyrchu, ac amrywiaethau cyfathrebu yn y gweithle. Mae'r darlithoedd yn y modiwl hwn yn llywio ac yn dylanwadu yn uniongyrchol ar y modiwl lleoliad gwaith 1048. Disgwylir i fyfyrwyr ymchwilio ac ymgyfarwyddo â chynnwys y ddarlithoedd ac ymgorffori eu dysgu yn adroddiad lleoliad gwaith modiwl 1048. Mae ail elfen y modiwl hwn yn cynnwys ysgrifennu academaidd - bydd myfyrwyr yn ymchwilio i ddau bwnc penodol ac yn cyflwyno eu traethodau. Mae pynciau'n ymwneud â themâu fel prosesau arloesi, tueddiadau byd-eang, datblygiad personol, meddwl dylunio a strategaeth. Mae trydedd elfen y modiwl hwn yn cynnwys tasg tîm 4 wythnos o hyd (cymysgedd ar hap o fyfyrwyr Blwyddyn Gyntaf, Ail a Thrydedd Flwyddyn) i ymgysylltu ac ymateb i friff byw diwydiannol a osodwyd gan un o'n cwmnïau partner. Mae'r agwedd hon ar y modiwl yn

cael ei hasesu gan dîm Viva gerbron panel o feirniaid. Mae'r dasg hon a'i hasesiad yn ailadrodd y broses lle byddai dylunwyr sy'n gweithio mewn tîm yn cyflwyno eu canlyniad cyflawn i gleient.

## XUC 1048 **PROFIAD YN Y GWEITHLE 1**

### 30 Credyd Semester 1 a 2

Mae profiad yn y gweithle yn ganolog i'r cwrs, mae'n caniatáu i fyfyrwyr gael profiad o weithio fel dylunydd mewn amgylchedd masnachol. Mae'r modiwl cyntaf hwn mewn cyfres o dri modiwl lleoliad gwaith yn ystod y cwrs, yn cyflwyno ystod o fodelau damcaniaethol a ddefnyddiwyd yn ystod y dadansoddiad. Mae'r gweithle yn agwedd allweddol ar y cwrs ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr weithio gyda chwmnïau a phartneriaid diwydiannol i gael profiadau ymarferol gwerthfawr. Yn ystod y lleoliad 6 wythnos, disgwylir i fyfyrwyr lunio adroddiad am agweddau penodol a arsylwyd arnynt a chysylltu eu dadansoddiad â'u datblygiad proffesiynol eu hunain.





# YSGOL GWYDDORAU ADDYSGOL

## Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid

**Cyswllt: Rhian Tomos**
r.tomos@bangor.ac.uk

### XAC1026 **SGILIAU AR GYFER DYSGU A GWAITH**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl hwn yn datblygu sgiliau academaidd y myfyrwyr ac yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer elfennau fel cyfeirnodi, golygu a phrawf ddarllen, cynllunio gwaith, creu a rhoi cyflwyniadau, hynny yw y sgiliau angenrheidiol trwy gydol eu cwrs is-raddedig ond hefyd sgiliau a fydd yn ddefnyddiol wedi iddynt adael y Brifysgol.

### XAC1027 **HAWLIAU PLANT CYMRU A'R BYD**

**20 Credyd Semester 2**

Mae'r modiwl yn canolbwyntio ar bwysigrwydd amrywiaeth diwylliannol, gwerthoedd a hawliau a'u pwysigrwydd wrth ddatblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol a moesol plant. Gyda phwyslais ar hawliau, bydd y modiwl yn edrych ar ffyrdd y gellir meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol mewn plentyndod ac ieuenctid. Drwodd a thro, nod y modiwl yw rhoi dealltwriaeth eang o faterion diwylliannol mewn plentyndod ac ieuenctid o fewn cyd-destunau safbwyntiau cenedlaethol a rhyngwladol.

### XAC1033 **ANTURIAETHAU WRTH DYFU**

**20 Credyd Semester 1**

Mae'r modiwl hwn yn craffu ar ddatblygiad seicolegol cynnar plant o'u geni hyd at y blynyddoedd cynnar. Mae'n nodi'r cerrig milltir yn natblygiad cynnar plant ac yn tanlinellu'r ffactorau sy'n hyrwyddo datblygiad. Mae'n cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr arsylwi datblygiad plant ifanc mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar priodol, yn enwedig mewn perthynas â chymdeithasu a rhyngweithio ag eraill, a dadansoddi eu tystiolaeth yn erbyn y prif gerrig milltir datblygu.

### XAC1035 **PLANT A CHYMDEITHAS**

**20 Credyd Semester 1**

Mae'r modiwl yn cyflwyno myfyrwyr i astudiaeth gymdeithasegol plentyndod, ac yn trafod sut y mae cysyniadau a dealltwriaethau plentyndod yn cael eu pennu'n gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn hanesyddol. Archwilir y syniadau hyn gan drafod agenda hawliau plant a'r dadleuon cymdeithasol a chyfreithiol sy'n deillio ohoni.

### XAC1070 **LLYTHRENNEDD AM OES**

**20 Credyd Semester 2**

Mae'r modiwl hwn yn ystyried agweddau cymdeithasol a seicolegol ar ddatblygiad cyfathrebu, iaith a llythrennedd plant. Nod y modiwl yw rhoi cyflwyniad defnyddiol i'r maes hynod ddiddorol hwn i'r rhai sydd eisiau gweithio gyda phlant. Mae'n cynnwys syniadau ymarferol yn ogystal â syniadau damcaniaethol. Bydd y rhai sy'n astudio'r modiwl hwn yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol o sut y gellir cyfuno bywyd cartref, profiadau amrywiol ac eang a defnyddio llwyfannau digidol i ddatblygu sgiliau cyfathrebu creadigol a llythrennedd sy'n paratoi plant at ddysgu gydol oes.

## PCC1002 **CYFLWYNIAD I YMCHWIL**

### 20 Credyd Semester 1

Mi fydd y modiwl yn cyflwyno dulliau ymchwil gwahanol i fyfyrwyr, ac yn trafod y prif bethau y dylid eu hystyried wrth ddylunio ymchwil (e.e. moeseg, dibynadwyedd a dilysrwydd). Yn ogystal, mi fydd y modiwl yn cyflwyno ystadegau disgrifiadol a chasgliadol i fyfyrwyr, ac yn trafod y gwahaniaeth rhwng dulliau ansoddol a meintiol.

# Addysgu

## ADDYSG GYNRADD GYDA STATWS ATHRO CYMWYSEDIG (CWRS CYFRWNG CYMRAEG)

Mae'r cwrs gradd yma yn eich hyfforddi fel athro/athrawes gynradd. Bydd y cwrs yn eich paratoi i addysgu yng Nghymru ond hefyd yr un mor ddilys i'r rhai sydd eisiau dysgu tu hwnt i Gymru. Bydd myfyrwyr yn cael eu gosod mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda chefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg ymhellach ar hyd y cwrs.



# YSGOL GWYDDORAU DYNOL AC YMDDYGIADOL

## Seicoleg

**Cyswllt: Dr Emma Hughes-Parry**
emma.h@bangor.ac.uk

### PCC1008 **SGILIAU ACADEMAIDD DWYIEITHOG I**

**10 Credyd Semester 1**

Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn datblygu'r sgiliau craidd sydd eu hangen i gyfathrebu'n effeithiol mewn gwyddoniaeth yn gyffredinol, ac mewn seicoleg yn benodol, gan ymarfer eu sgiliau ysgrifennu, trawsieithu a gwerthuso gwaith academaidd . Cyflwynir y deunydd ar ffurf darlith, gyda thrafodaeth bellach ar erthyglau a materion cyfoes mewn seminarau wythnosol.

### PCC1009 **SGILIAU ACADEMAIDD DWYIEITHOG II**

**10 Credyd Semester 2**

Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau craidd, gan wrando ar ddarlithoedd gan arbenigwyr o feysydd seicolegol gwahanol. Yn ogystal â darlithoedd a seminarau wythnosol, bydd myfyrwyr yn mynychu dosbarthiadau cyflwyno, lle byddant yn datblygu eu sgiliau cyflwyno ar lafar.

### PCC1002 **CYFLWYNIAD I YMCHWIL**

**20 Credyd Semester 1**

Mi fydd y modiwl yn cyflwyno dulliau ymchwil gwahanol i fyfyrwyr, ac yn trafod y prif bethau y dylid eu hystyried wrth ddylunio ymchwil (e.e. moeseg, dibynadwyedd a dilysrwydd). Yn ogystal, mi fydd y modiwl yn cyflwyno ystadegau disgrifiadol a chasgliadol i fyfyrwyr, ac yn trafod y gwahaniaeth rhwng dulliau ansoddol a meintiol.

### PCC1004 **DATBLYGU SGILIAU YMCHWIL**

**20 Credyd Semester 2**

Yma, bydd myfyrwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau dulliau ymchwil, drwy ddatblygu eu dealltwriaeth o arbrofion a dadansoddiadau gwahanol. Cyflwynir y deunydd ar ffurf darlith, gyda seminarau wythnosol yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr drafod y pynciau ymhellach, a dysgu sut i ddadansoddi data gan ddefnyddio meddalwedd penodol (SPSS).

# YSGOL GWYDDORAU DYNOL AC YMDDYGIADOL

## Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

**Cyswllt: Eleri Jones**
eleri.s.jones@bangor.ac.uk
**Julian Owen**
j.owen@bangor.ac.uk

### PCC1007 **CYFLWYNIAD I YMCHWIL**

**10 Credyd Semester 1**

Mi fydd y modiwl yn cyflwyno dulliau ymchwil gwahanol i fyfyrwyr, ac yn trafod y prif bethau y dylid eu hystyried wrth ddylunio ymchwil (e.e. moeseg, dibynadwyedd a dilysrwydd). Yn ogystal, mi fydd y modiwl yn cyflwyno ystadegau disgrifiadol a chasgliadol i fyfyrwyr, ac yn trafod y gwahaniaeth rhwng dulliau ansoddol a meintiol.

### PCC1006 **DATBLYGU SGILIAU YMCHWIL**

**10 Credyd Semester 2**

Yma, bydd myfyrwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau dulliau ymchwil, drwy ddatblygu eu dealltwriaeth o arbrofion a dadansoddiadau gwahanol. Cyflwynir y deunydd ar ffurf darlith, gyda seminarau wythnosol yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr drafod y pynciau ymhellach, a dysgu sut i ddadansoddi data gan ddefnyddio meddalwedd penodol (SPSS).

### JXC1054 **FFISIOLEG DDYNOL**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Nod y modiwl yw rhoi gwybodaeth sylfaenol am ffisioleg ddynol. Bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn deall yr agweddau ffisiolegol o ymarfer corff a chwaraeon a fydd yn cael eu trafod mewn modiwlau dilynol. Bydd y sesiynau labordy yn cael eu cynnal yn Gymraeg gyda'r opsiwn i gyflwyno gwaith yn Gymraeg neu Saesneg.

### JXC1051 **SGILIAU ACADEMAIDD**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl wedi'i gynllunio i wella sgiliau academaidd y myfyriwr - sgiliau y gellir eu trosglwyddo i fodiwlau eraill (e.e. sgiliau llyfrgell, darllen ac ysgrifennu academaidd, cyfeirnodi, rhifedd, cyflwyno). Mae seminarau bach ar gael yn y Gymraeg ac mae myfyrwyr yn gallu cyfathrebu drwy'r Gymraeg yn eu grwpiau SHEOPS.

### JXC1061 **YMARFER CORFF AR DIR**

**10 Credyd Semester 1 a 2**

Canolbwyntir ar ddatblygu'r sgiliau ymarferol sylfaenol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau antur ddiogel ar y tir. Y prif weithgareddau yr ymdrinnir â hwy fydd cerdded mynyddoedd, dringo dan do, micro fordwyo a sgramblo mewn ceunentydd. Cynhelir y sesiynau ymarferol yn ddwyieithog, gyda'r dewis o gyflwyno gwaith yn Gymraeg neu yn Saesneg.

### JXC1058 **ADDYSGU GWEITHGAREDDAU CAMPFA AC ATHLETAU**

**10 Credyd Semester 1**

Canolbwyntir ar ddatblygu'r sgiliau ymarferol sylfaenol ac ymwybyddiaeth dactegol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn ddiogel mewn chwaraeon. Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ofynion chwaraeon, ac yn dod i ddeall y paratoi sy'n gydnaws a datblygu ymarfer da wrth gymryd rhan mewn chwaraeon. Cynhelir darlithoedd a sesiynau ymarferol yn ddwyieithog, gyda'r dewis o gyflwyno gwaith yn Gymraeg neu yn Saesneg.

### JXC1059 **PEDAGOGEG AR GYFER YMARFER CORFF 1**

**10 Credyd Semester 2**

Mae'r modiwl yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau ymarferol sylfaenol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn ddiogel mewn athletau, dawns, gymnasteg a nofio. Cynhelir darlithoedd a sesiynau ymarferol yn ddwyieithog, gyda'r dewis o gyflwyno gwaith yn Gymraeg neu yn Saesneg.

### JXC1055 **FOUNDATIONS OF SPORT AND EXECISE PSYCHOLOGY**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae pynciau seicoleg chwaraeon ac ymarfer corff a fydd yn cael sylw yn y modiwl hwn yn cynnwys: "straen, pryder, cyffroad", "safbwyntiau hanesyddol ar straen a pherfformiad", "emosiwn cadarnhaol", "theori cyd-ddibyniaeth gymdeithasol", "proffil seicolegol", "sgiliau seicolegol", "cymhelliant cyflawniad", "canfyddiad a gwybyddiaeth ymgorfforedig". Bydd seminarau yn cael eu cynnal yn Gymraeg, gyda'r opsiwn i gyflwyno gwaith yn Gymraeg neu Saesneg.

### JXC1053 **EGWYDDORION DATBLYGU CRYFDER A FFITRWYDD**

**10 Credyd Semester 2**

Nod y modiwl yw rhoi cyflwyniad i egwyddorion datblygu cryfder a ffitrwydd i wella perfformiad athletwyr. Bydd pwyslais ar chwaraeon tîm, er y bydd llawer o'r agweddau dan sylw yn trosglwyddo i chwaraeon unigol ac anhraddodiadol. Lle bo modd, cynhelir sesiynau ymarferol a seminarau bach yn Gymraeg, gyda'r opsiwn o gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

# YSGOL GWYDDORAU MEDDYGOL AC IECHYD

## Gwyddorau Iechyd

**Cyswllt: Beryl Cooledge**
b.cooledge@bangor.ac.uk

### NEC / NAC 1001 **GWYBODAETH PROFFESIYNOL**

**30 Credyd Semester 1 a 2**

Nod y modiwl hwn yw cydweithio â chi i ddechrau eich taith gofal iechyd a datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o themâu ac arferion rhyngbroffesiynol allweddol i greu arweinwyr deallus, tosturiol ar gyfer y gweithlu gofal iechyd.

### NAC / NEC 1003 **CYFLWYNIAD I NYRSIO**

**30 Credyd Semester 1 a 2**

Nod y modiwl hwn yw galluogi myfyrwyr i ddeall a dysgu am asesu, cynllunio, gweithredu a gwerthuso agweddau sylfaenol ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn ogystal, bydd myfyrwyr yn cael eu cyflwyno i egwyddorion hybu iechyd ac atal afiechyd trwy gydol oes er mwyn sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posib. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwerthoedd moesegol wrth ddarparu gofal.

### NAC / NEC 1005 **YMARFER NYRSIO 1**

**30 Credyd Semester 1 a 2**

Bydd y modiwl yn dysgu sgiliau cyfathrebu, gofal a therapiwtig i chi mewn sesiynau efelychu a gweithdai sy'n hybu diogelwch y cleifion ac ansawdd y gofal. I'r perwyl hwnnw byddwch yn gallu ymarfer, magu hyder, cwestiynu ac ymchwilio sgiliau gofal a sgiliau therapiwtig mewn amgylchedd diogel.

## NAC / NEC 1007 **CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

**30 Credyd Semester 1 a 2**

O fewn y modiwl hwn byddwch yn archwilio rhai o'r materion sylfaenol sy'n ofynnol i nyrsio oedolion, plant a phobl ag anableddau, iechyd meddwl drwy gydol eu hoes. Byddwch yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau nyrsio sylfaenol ar gyfer ymgysylltu ag unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gan ystyried yr agweddau ffisiolegol a seicolegol ynghyd â'r dylanwadau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a lles. Byddwch yn datblygu gwybodaeth a sgiliau ymarferol sy'n eich paratoi i ddarparu gofal nyrsio tosturiol ac urddasol i bawb. Mae datblygu gwybodaeth am sgiliau cyfathrebu a dulliau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn elfen graidd o'r modiwl. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r defnydd o sgiliau cyfathrebu effeithiol ar gyfer darparu a'r gofal gorau a gwaith tîm rhyngbroffesiynol da.

# Baglor Bydwreigiaeth (Anrhydedd)

**Cyswllt: Siwan Humphreys**
s.humphreys@bangor.ac.uk

Mae myfyrwyr Bydwreigiaeth sydd yn astudio ym Mhrifysgol Bangor yn gallu ymgeisio am yr ' ysgoloriaeth cymhelliant' gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrth gyflawni o leiaf 33% o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn cyflawni y credydau gofynnol mae modd cwblhau gwahanol aseiniadau sydd yn amrywio o ystod eang megis cymwyseddau clinigol, OSCEs (arholiadau llafar), vivas, arholiadau ysgrifenedig neu thraethodau o wahanol fodiwlau yn ôl eu dewis iaith a'u cryfderau ieithyddol.

Mae cefnogaeth ar gael i bob myfyriwr sydd yn dewis astudio trwy'r Gymraeg, trwy gymorth staff, adnoddau a thiwtor personol Cymraeg. Er fod canran helaeth or darlithoedd yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg, mae modd cymryd rhan a chwblhau gwaith grŵp, sesiynau sgiliau clinigol, unrhyw aseiniad neu waith ymarferol ar leoliad trwy'r Gymraeg. Gweler y modiwlau ar gyfer Blwyddyn 1 isod.

## NAC -1001 **GWYBODAETH PROFFESIYNOL**

**30 Credyd Semester 1 a 2**

Modiwl cyffredin ble fydd myfyrwyr Gofal Iechyd yn dysgu a gweithio fel corff proffesiynol. Nod y modiwl hwn yw galluogi'r myfyrwyr hyn i ennill dealltwriaeth ar agweddau a rennir ar ddarparu gofal iechyd, megis cyfathrebu, gwyddorau iechyd, systemau'r corff, deddfwriaeth, polisi ac economeg iechyd o fewn y cyd-destun gweithio rhyngbroffesiynol.

## NMW -1020 **LLES Y FAM A'R FFETWS**

**30 Credyd Semester 1 a 2**

Ar ddiwedd y modiwl dylai'r myfyriwr allu disgrifio/dangos ymwybyddiaeth o rôl y fydwraig wrth optimeiddio y broses ffisiolegol arferol tra'n gweithio mewn partneriaeth â merched, gan alluogi eu barn, eu dewisiadau a'u penderfyniadau, a helpu i gryfhau eu galluoedd.

## NMW - 1021 **MERCHED A CHYMDEITHAS. DERBYN GOFAL IECHYD**

### 30 Credyd Semester 1 a 2

Nod y modiwl hwn yw cyflwyno rôl y fydwraig fel ymarferydd iechyd cyhoeddus effeithiol. Bydd myfyrwyr yn archwilio cysyniadau addysg iechyd, hybu iechyd ac amddiffyn a chael eu cyflwyno i adeiladu darpariaeth gofal sydd wedi'i wreiddio mewn model gofal cymdeithasol sy'n ystyried merched fel partneriaid a cyfranogwyr gweithredol mewn dewisiadau gofal iechyd. Anogir myfyrwyr  i ystyried sut y gellir diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol y ferch, ei theulu a'r gymuned ehangach/fyd-eang.

## NMW -1022 **CYFLWYNIAD I YMARFER BYDWREIGIAETH**

### 30 Credyd Semester 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn rhedeg trwy'r flwyddyn ynghyd ar modiwlau eraill ym mlwyddyn 1 ac yn canolbwyntio ar adeiladau hyder a chymhwysedd yn y sgiliau ymarferol sydd yn gysylltiedig gyda ymarfer Bydwreigiaeth. Bydd myfyrwyr yn dysgu drwy ystod o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda gweithdai sgiliau wedi'u hwyluso. Bydd y dysgu damcaniaethol yn cael ei gefnogi gan ddysgu o fewn yr amgylchedd lleoliadau clinigol. Mae'r modiwl hwn yn paratoi'r myfyrwyr i gyflawni yr hyfedreddau a amlinellir yn y Rhaglen Unwaith i Gymru 2020 Dogfen Asesu Ymarfer Bydwreigiaeth (MPAD) ar gyfer blwyddyn 1.

## RADIOGRAFFEG DIAGNOSTIG BSC (ANRHYDEDD)

Mae myfyrwyr sydd yn astudio'r cwrs radiograffeg diagnostig yn gallu cyflwyno cais am ysgoloriaeth cymhelliant a chael tiwtor personol Cymraeg. Bydd rhaid iddynt gwblhau un o'r modiwlau cyffredin megis Gofal Iechyd neu Gwyddorau Iechyd (manylion uchod). Mae cefnogaeth ar gael trwy gymorth staff ac adnoddau.



# YSGOL GWYDDORAU MEDDYGOL AC IECHYD

## Gwyddorau Meddygol

**Cyswllt: Merfyn Williams**
merf.williams@bangor.ac.uk

**Dr Dylan Jones**
mss607@bangor.ac.uk

### MSC1019 **YMARFER DA'R LABORDY**

**10 Credyd Semester 1**

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy sy'n bwysig mewn gwaith labordy. Bydd darlithoedd a sesiynau ymarferol yn egluro cysyniadau'n ymwneud a materion iechyd a diogelwch, rheoli amser ac ysgrifennu adroddiadau. Caiff technegau labordy sylfaenol, a'r defnydd a wneir ohonynt, eu cynnwys a'u hasesu mewn dosbarthiadau ymarferol.

### MSC1020 **YMARFERION BIOFEDDYGOL**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Cyfres o ddosbarthiadau ymarferol yn y meysydd Biocemeg, Ffisioleg, Microbioleg a Geneteg. Ymweliadau ag ysbytai a chwmnïau priodol.

### MSC1022 **CYFLWYNIAD I FICROBIOLEG**

**10 Credyd Semester 1**

Cyflwyniad i agweddau ar ficrobioleg feddygol gan gynnwys bacteria, firws, ffwng a paraseit.

### MSC1021 **FFISIOLEG DDYNOL**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Cyflwyniad i wahanol agweddau o ffisioleg dynol, yn cynnwys esboniad o'r prif organau.

### MSC1017 **SGILIAU ALLWEDDOL YN Y GWYDDORAU MEDDYGOL**

**20 Credyd Semester 1 a 2**

Mae'r modiwl wedi'i selio ar agweddau o gyflogadwyedd a sgiliau trosglwyddadwy, lle bydd cyfle i fyfyrwyr drafod eu gwyddoniaeth drwy'r Gymraeg, a gwella neu gynyddu eu sgiliau iaith ac ysgrifenedig yn y Gymraeg.



# Gyda ni, mae gennych chi hawl i…

# With us, you have a right to…

**Gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg**
Submit written work in Welsh

**Wasanaeth cwnsela yn Gymraeg**
Counselling service in Welsh

**Gymorth ariannol yn Gymraeg**
Apply for financial support in Welsh

**Dystysgrifau yn Gymraeg**
Certificates in Welsh

**Diwtor personol sy'n siarad Cymraeg**
Welsh speaking personal tutor


**Gyfarfodydd yn Gymraeg**
Meetings in Welsh

**Lythyrau yn Gymraeg**
Letters in Welsh

**Ffurflenni yn Gymraeg**
Forms in Welsh

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau chi i ddefnyddio'r Gymraeg ewch i
comisiynyddygymraeg.cymru

For more information on your rights to use Welsh, go to
welshlanguagecommissioner.wales




Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Cysylltwch â ni / Contact us**

Canolfan Bedwyr
01248 383293
canolfanbedwyr@bangor.ac.uk

**#MAEGENIHAWL**

# CANOLFAN BEDWYR

# YN GEFN I'R GYMRAEG YN Y BRIFYSGOL

Mae Canolfan Bedwyr yn ganolfan yn y Brifysgol sy'n arbenigo mewn darparu cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg neu sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Byddwn yn cynnig Sesiynau Sgiliau Iaith a sesiynau Cymraeg ar y Cyfrifiadur yn ystod y cyfnod croeso. Mae ein tiwtoriaid iaith ar gael i'ch paratoi ar gyfer Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Rydym yma i roi arweiniad i chi ar yr holl wasanaethau y gallwch eu derbyn drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol. Cymerwch olwg ar wefan CymorthCymraeg sy'n cynnig llu o adnoddau a dolenni defnyddiol i fyfyrwyr

www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg




CANOLFAN BEDWYR

@canolfanbedwyr

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

www.bangor.ac.uk